O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 197 (Cy. 83)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park, Casnewydd i Gylchfan Crown, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

Gwnaed	*16 Chwefror 2016*
Yn dod i rym	*22 Chwefror 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A4042) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Chwefror 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park, Casnewydd i Gylchfan Crown, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 21:00 o'r gloch ar 22 Chwefror 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn(au) o’r gefnffordd” (“*the length(s) of the trunk road*”) yw:

i. y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Grove Park yn Ninas Casnewydd hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Croes-y-mwyalch ym Mwrdeistref Sirol Torfaen; a

ii. y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Croes-y-mwyalch hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Crown ym Mwrdeistref Sirol Torfaen.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Nid yw darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 16 Chwefror 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.